THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

# MEDALAU CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
# CANLLAWIAU ENWEBU 2020-21

## CYFLWYNIAD

### Beth yw Cymdeithas Ddysgedig Cymru?

Ni yw academi ysgolheigaidd genedlaethol Cymru, a sefydlwyd yn 2010. Mae gennym Gymrodoriaeth sy'n cynnwys dros 560 o unigolion amlwg, yn cynrychioli arbenigedd ar draws pob maes academaidd a thu hwnt. Defnyddiwn yr wybodaeth gyfunol hon i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysg, a chynnig cyngor polisi annibynnol.

Mae'r Gymdeithas yn elusen Siarter Brenhinol, rhif elusen gofrestredig 1168622. Ceir rhagor o wybodaeth amdanom yma: www.cymdeithasddysgedig.cymru

### Medalau'r Gymdeithas

Bob blwyddyn, mae'r Gymdeithas yn dyfarnu medalau i ddathlu rhagoriaeth mewn nifer o feysydd cyflawniad. Mae croeso i unrhyw un gyflwyno enwebiad am unrhyw rai o'r categorïau (gyda rhai eithriadau: gweler rheol 9 ar y dudalen 3).

**Dyddiad cau enwebiadau medalau 2019-20 yw 5.00pm ar 30 Mawrth.** Mae gan bob medal bwyllgor penodol i asesu'r enwebiadau a phenderfynu pwy a ddylai dderbyn y wobr.

Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas ar **19 Mai 2021**, a byddant yn derbyn medal a gwobr ariannol (£500 ar gyfer enillwyr Medalau Frances Hoggan, Hugh Owen a Menelaus; £250 ar gyfer pob un o enillwyr Medalau Dillwyn). Byddwn yn gwahodd enillwyr i fynychu Cinio Blynyddol y Gymdeithas ar yr un noson, os bydd rheolau ar ymgynnull yn caniatáu i hyn fynd ymlaen.

Darllenwch y canllawiau hyn cyn cwblhau'r ffurflen enwebu am fedal. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Swyddog Cymrodoriaeth, Fiona Gaskell – fgaskell@lsw.wales.ac.uk.

- I gael rhagor o wybodaeth am y Medalau, ac i glywed am enillwyr o'r gorffennol, ewch i www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau/.

## CYMHWYSTER

I fod yn gymwys ar gyfer unrhyw rai o'n medalau, rhaid i'r enwebeion fyw yng Nghymru, fod wedi'u geni yng Nghymru neu â chysylltiad penodol arall â Chymru. Nid oes cyfyngiad oed, ac mae'r rheini sydd ar doriad gyrfa yn gymwys.

Gall unrhyw un enwebu rhywun am fedal. Nid oes rhaid i gynigwyr ac eilwyr fod yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, nac yn gysylltiedig â'r gymdeithas fel arall.

## CATEGORÏAU MEDALAU

### Medalau Dillwyn – ar gyfer Rhagoriaeth Ymchwil Gyrfa Gynnar

- Enwyd y medalau hyn ar ôl teulu Dillwyn yn Abertawe, ac fe'u dyfernir mewn tri chategori:
- Y Dyniaethau a'r Celfyddydau Creadigol
- Y Gwyddorau, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth
- Y Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Busnes

Mae Medalau Dillwyn yn cydnabod "unigolion sydd wedi dangos gallu rhagorol yn eu gwaith, eu hymchwil a'u hymarfer proffesiynol".

Bydd yr enwebeion yn ymchwilwyr gyrfa gynnar – naill ai'n academaidd neu'n anacademaidd – yn gweithio mewn addysg uwch, y sector cyhoeddus neu breifat, neu mewn diwydiant. Mae'n rhaid iddynt gael rhwng 2 a 10 mlynedd o brofiad gwaith ym maes ymchwil, a bod wedi cael eu gradd gyntaf fwy na 6 mlynedd yn ôl.

### Medal Frances Hoggan – ar gyfer Menywod Rhagorol mewn STEMM

Roedd Frances Hoggan (1843-1927) yn ymarferydd meddygol, ymchwilydd a diwygiwr cymdeithasol arloesol o Aberhonddu. Mae'r fedal hon yn cydnabod cyfraniadau rhagorol i ymchwil gan fenywod mewn unrhyw faes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth (STEMM), gan gynnwys agweddau gwyddonol ar bynciau fel daearyddiaeth ac archaeoleg. Dylai enwebeion fod yn weithredol o ran ymchwil yn y sector cyhoeddus neu breifat.

### Medal Hugh Owen – ar gyfer Ymchwil Addysgol Rhagorol

Enwyd y fedal hon er anrhydedd i Syr Hugh Owen (1804-1881), addysgwr, dyngarwr ac arloeswr addysg uwch pwysig o Gymru. Mae'n cydnabod cyfraniadau sylweddol i ymchwil addysgol, neu gymhwyso ymchwil i gynhyrchu arloeseddau sylweddol mewn polisi addysg a/neu ymarfer addysg broffesiynol yng Nghymru.

### Medal Menelaus – ar gyfer Rhagoriaeth mewn Peirianneg a Thechnoleg

Peiriannydd, gweithgynhyrchydd a rheolwr cwmni oedd William Menelaus (1818-1882) a sefydlodd Sefydliad Peirianwyr De Cymru yn 1857. Dyfernir y fedal hon am ragoriaeth mewn unrhyw faes peirianneg a thechnoleg i academydd, ymchwilydd diwydiannol neu ymarferydd diwydiannol.

2021

## RHEOLAU A GWEITHDREFNAU ENWEBU

1. Er mwyn i enwebiad fod yn ddilys, rhaid i'r Gymdeithas dderbyn y dogfennau canlynol erbyn **5.00pm ar 30 Mawrth 2021**:
    - Ffurflen enwebu wedi'i chwblhau – gallwch ei lawrlwytho o www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau
    - CV yr enwebai (heb fod yn hirach na 2 dudalen; gall CV hirach anghymhwyso enwebiad)
    - *Ar gyfer Medalau Frances Hoggan, Menelaus a Hugh Owen:* rhestr o gyhoeddiadau'r enwebai (heb fod yn hirach na 2 dudalen)
    - *Ar gyfer Medalau Dillwyn:* Dylai Ffurflen Gyfeirio Gyfrinachol gael ei chwblhau gan un o'r Eilyddion (gofynnwch iddynt anfon y ffurflen atom yn uniongyrchol; mae'r ffurflen ar ein gwefan yn www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau)
2. Dylid ebostio'r holl ddogfennau i nominations@lsw.wales.ac.uk. Ni fydd dogfennau sydd yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad cau, neu sydd yn cael eu hanfon i gyfeiriad arall, yn cael eu derbyn.
3. Byddwn yn cydnabod pob enwebiad a ddaw i law. Os nad ydych chi'n derbyn cydnabyddiaeth o fewn 3 diwrnod, anfonwch ebost arall i nominations@lsw.wales.ac.uk. Ni fyddwn yn gyfrifol am enwebiadau nad ydynt yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.
4. Mae'n rhaid i bob enwebiad gael Cynigydd a dau Eilydd, a dylid rhoi eu henwau a'u llofnodion ar y ffurflen enwebu.
5. Cyfrifoldeb y Cynigydd yw darparu digon o wybodaeth ar y ffurflen i'r pwyllgor medalau ddod i farn resymegol ar yr enwebai.
6. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni anghyflawn.
7. Mae'n rhaid i'r Cynigydd roi gwybod i'r enwebai am ei enwebiad. Fel arall, peidiwch â rhoi gwybod i unrhyw un arall am yr enwebiad.
8. Byddwn yn ystyried enwebiadau am hyd at dair blynedd, a byddwn yn gofyn am wybodaeth wedi'i diweddaru gan y Cynigydd bob blwyddyn. Mae hyn yn gallu cynnwys gofyn i'r Cynigydd lenwi ffurflen newydd os yw gofynion yr enwebai wedi newid. (Nodwch y bydd enwebeion am Fedalau Dillwyn yn anghymwys os byddant yn cronni dros 10 mlynedd o brofiad gwaith ar ôl i'w henwebiad gael ei ystyried am y tro cyntaf.)
9. Ni fydd y canlynol yn cael bod yn Gynigydd neu yn Eilydd ar gyfer enwebiad:
    - Aelodau o Bwyllgor y Fedal a fydd yn ystyried yr enwebiad (ceir pwyllgor gwahanol i bob medal)
    - Sefydliadau, cyrff a chwmnïau
10. Ni fydd y canlynol yn gallu cael eu henwebu am Fedal:
    - Aelodau o Bwyllgor y Fedal a fydd yn ystyried yr enwebiad
    - Sefydliadau, cyrff a chwmnïau
    - Aelodau o Gyngor y Gymdeithas

11. Gwnewch yn siŵr fod enwebeion yn ymwybodol o'r canlynol:
    - Bydd Llywydd y Gymdeithas yn cyhoeddi enillwyr y Fedal yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas ar 19 Mai 2020. Bydd yr enillwyr yn cael eu gwahodd i fynychu Cinio Blynyddol y Gymdeithas ar yr un noson, os bydd y canllawiau ar ymgynnull yn caniatáu i hyn ddigwydd.
    - Dylai enillwyr medalau fod yn barod i wneud cyfraniad i'r Gymdeithas yn y flwyddyn ar ôl ennill eu gwobr. Gall hyn fod yn ddarlith, gweithdy neu weithgaredd arall sy'n ymgysylltu â chynulleidfa nad ydynt yn arbenigwyr. Bydd y Gymdeithas yn talu unrhyw dreuliau'n gysylltiedig â'r cyfraniad hwn.
12. Fel arfer byddwn yn dyfarnu un fedal y flwyddyn ym mhob categori. Fodd bynnag os yw Pwyllgor unrhyw Fedal yn pennu nad oes neb yn bodloni'r safon briodol o ragoriaeth, ni chaiff medal ei dyfarnu yn y categori hwnnw.

## CANLLAWIAU AR GYFER CWBLHAU FFURFLEN ENWEBU

### Ar gyfer pa Fedal ydych chi'n enwebu?

Gwiriwch y blwch priodol.

### Manylion yr Enwebai

Gwnewch yn siŵr fod pob adran wedi'i chwblhau.

### Datganiad o Gefnogaeth

Defnyddiwch y cyfle hwn i nodi pam rydych chi'n meddwl y dylai eich enwebai dderbyn y fedal. Gall eich datganiad (uchafswm 500 gair) gynnwys y canlynol:

- Tystiolaeth o ragoriaeth yr enwebai – e.e. gwahoddiadau i gyflwyno darlithoedd a phapurau i gynadleddau a chyrff proffesiynol; pwyllgorau neu ymchwiliadau pwysig mae'r ymgeisydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu arnynt; anrhydeddau, medalau, gwobrau mae'r enwebai wedi'u derbyn
- Statws yr enwebai yn y ddisgyblaeth – e.e. cyhoeddiadau arloesol diweddar, ymchwil blaengar, arweinyddiaeth academaidd
- Cyfraniad ac ymgysylltu gan yr enwebai â chymdeithas yn ehangach – e.e. lledaenu ymchwil ac ysgolheictod yn hygyrch, masnacholi, cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd/cymunedau

Oherwydd y bydd enwebeion am Fedal Dillwyn ar gyfnod cynharach yn eu gyrfa, efallai na fydd rhai o'r uchod yn berthnasol. Os felly amlinellwch gryfderau cefndir academaidd yr enwebai a rhagolygon gyrfa yn y dyfodol (a yw'n seren esgynnol?).

2020/21

## Cyfraniad i'r Gymdeithas

Rydym yn gofyn i'n holl enillwyr Medalau fod yn barod i wneud cyfraniad i'r Gymdeithas ar ôl ennill eu gwobr. Gofynnwch i'ch enwebai pa fath o gyfraniad(au) y gallent eu gwneud, a rhowch fanylion yma. Types of contributions could include:

- Darlith gyhoeddus
- Cefnogaeth i Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar
- Ymwneud â'n gwaith ar Astudiaethau Cymreig
- Gweithdy mewn ysgol
- Ysgrifennu erthygl

## Cynigydd / Eilyddion

Mae pob enwebiad yn gofyn am Gynigydd a dau Eilydd. Rhowch eu manylion, a chofiwch gynnwys eu llofnodion wedi'u sganio ar y ffurflen os oes modd. Os nad oes llofnod wedi'i sganio ar gael, anfonwch e-bost cadarnhau atom gan y person hwnnw.

## MEDALAU DILLWYN – FFURFLEN GEIRDA GYFRINACHOL

Sylwer, ar gyfer enwebiadau Medal Dillwyn, bod yn rhaid i un o'r Eilyddion lenwi'r Ffurflen Gyfeirio Gyfrinachol hefyd. Mae hon yn ffurflen ar wahân: www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau.

Gofynnwch i'r Eilydd anfon y ffurflen hon yn uniongyrchol at nominations@lsw.wales.ac.uk.

## CYSYLLTU Â NI

Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cofrestra'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edwad VII
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NS
Cymru

www.cymdeithasddysgedig.cymru

nominations@lsw.wales.ac.uk
+44 (0)29 2037 6954

2021